# Dyniaethau

## Ffeithiau Rhyfedd

**Wrth i Gwion yfed yr hylif hud mae'n dysgu pob ffaith mae modd ei wybod yn y byd. O sut i greu lliwiau i hanes paentiadau enwog a sut mae seren fôr yn torri gwynt. Ond faint o ffeithiau rhyfedd allwch chi eu darganfod?**

**Cam 1:** ***Bydd nifer fawr o'ch disgyblion yn fwy na chyfarwydd â "chwilio'r we" am ateb– ond mi fydden nhw'n llai sicr o sut i fynd ati i ddefnyddio peiriant chwilio yn gywir.***

Cychwynnwch wrth ail-wylio [rhan hon] y ddrama:



**Cam 2:** **Her Grŵp**

Gosodwch amserydd 3 munud. Yr her? Fesul grŵp i feddwl am gymaint o ffeithiau rhyfedd a phosib. *Beth ydych chi'n ei wybod yn barod? Beth ydych chi wedi dysgu yn yr ysgol? Pa ffeithiau diddorol 'dych chi wedi eu darllen neu mae Nain a Taid wedi rhannu gyda chi? Beth am raglenni ffeithiol ar y teledu?*

Wedi i'r amserydd gyfri lawr, gadewch i bob grŵp gyflwyno eu ffeithiau yn eu tro.

**Fframwaith Llythrennedd**

Adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen.

**Camau Cynnydd Dyniaethau**

Rwyf wedi bod yn chwilfrydig ac wedi gwneud awgrymiadau am ymholiadau posib, ac wedi gofyn ac ymateb i ystod o gwestiynau yn ystod ymholiad.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

**Bydd y grŵp â'r ffeithiau mwyaf diddorol yn ennill sticer "First Three Drops" bob un.**

**Cam 3:** **Cyflwyno'r "Peiriant Chwilio"**

Cyn Cyflwyno pwrpas peiriant chwilio, holwch o ble gaiff y plant hyd i'w ffeithiau, ac atebion i gwestiynau. *Os mae eich teulu eisiau gwybod rhywbeth, ble maen nhw'n edrych? Beth maen nhw'n ei wneud?*

Pan gewch chi ateb, cyflwynwch y peiriant chwilio ar sgrin fawr y dosbarth neu'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

**Cam 4:** Nawr am yr hwyl. *'Dyn ni eisiau dod o hyd i ffeithiau rhyfedd, felly bydd angen cwestiynau rhyfedd!*

Anogwch y plant i feddwl am gwestiynau fydd yn eu helpu i ddysgu am y byd. Efallai bod pwnc llosg ar yr iard neu efallai eu bod eisiau bod yn bwrpasol ddoniol.

Cynigwch yr enghreifftiau yma:

- *Pa mor aml mae crwban y môr yn brwsio'i ddannedd?*
- *Pa gaws yw'r mwyaf drewllyd yn y byd?*
- *Pwy sy'n byw yn nhŷ lleiaf y byd?*

**Cam 5:** **Geiriau Allweddol**

I helpu'r plant ddysgu am eiriau allweddol, defnyddiwch un o'r enghreifftiau – Pa mor aml mae crwban y môr yn brwsio'i ddannedd?

**Fframwaith Llythrennedd**

Adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen.

**Camau Cynnydd Dyniaethau**

Rwyf wedi bod yn chwilfrydig ac wedi gwneud awgrymiadau am ymholiadau posib, ac wedi gofyn ac ymateb i ystod o gwestiynau yn ystod ymholiad.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams

***Yn gyntaf, teipiwch y cwestiwn llawn. Weithiau caiff ateb yn y Gymraeg ond yn aml mae hyn yn ormod o wybodaeth.***

Nawr eglurwch fod peiriannau chwilio yn edrych ar eiriau nid brawddegau a bod hyn yn fwy pwysig fyth yn y Gymraeg. Pa eiriau yn ein cwestiwn sy'n bwysig a pherthnasol? Ceisiwch eu hidlo at *"Crwban Môr ddannedd."*

***Ail-chwiliwch, oes ateb nawr? Cliw: Dywed y wefan gyntaf nad oes ganddyn nhw ddannedd.***

**Cam 6:** Nawr bod y plant yn gyfarwydd â geiriau allweddol, dychwelwch at eu cwestiynau nhw. Gofynnwch iddyn nhw hidlo'r geiriau allweddol cyn mynd ati i chwilio ar y we!

***O.N. er y bydd rhai angen cymorth wrth ddarllen y gwefannau, sgil heddiw yw defnyddio geiriau allweddol. Ystyriwch grwpiau bychain gyda chymorth darllen.***

**Fframwaith Llythrennedd**

Adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth ar sgrin, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen.

**Camau Cynnydd Dyniaethau**

Rwyf wedi bod yn chwilfrydig ac wedi gwneud awgrymiadau am ymholiadau posib, ac wedi gofyn ac ymateb i ystod o gwestiynau yn ystod ymholiad.

© Cwmni Theatr Taking Flight 2020 gan Alan Thomas-Williams